Penrhyn-coch

Bu'r wythnosau diwethaf yn rhai eithaf prysur yn hanes yr ysgol. Bu plant y dosbarth uchaf yn gweithio'n ddygn yn cynhyrchu Papur Ysgol yn dwyn y teitl "Papur Brogynin". Yn sicr ni welwyd papur mor lliwgar a chynhwysfawr ers tro byd a llawen iawn oedd pawb ohonom o gael ar ddeall bod y papur wedi ei osod yn gydradd gyntaf gydag Ysgol Aberteifi yng nghystadleuaeth y Papur Ysgol gorau yng Ngŵyl Ddiwylliant Dyfed. Hyfryd oedd clywed hefyd bod aelodau dosbarth Mrs Evans wedi ennill y drydedd wobr am "Collage" yn seiliedig ar "Hen Fenyw Fach Cydweli". Yn Theatr y Werin y cyflwynwyd y tystysgrifau i'r enillwyr a da yw deall y daw gwobrau ariannol gyda hyn. Cafwyd amser diddorol yn y cyfarfod yn y Theatr oherwydd perfformwyd sioe undyn gan Jeremy Turner yn dwyn y teitl "Treiglwaith".

Yng nghystadleuaeth rygbi i ysgolion grwp canol cylch Aberystwyth a gynhaliwyd canol Ebrill enillwyd y cwpan gan fechgyn ysgol y Penrhyn. Rhaid llongyfarch y tim am waith arbennig o dda gan fod timoedd cryfion iawn yn eu herbyn. Dyma'r pedwerydd tro i enw'r ysgol hon gael ei gerfio ar y cwpan hardd hwn a gyflwynwyd gan gwmni y Mid Wales Heating.

Yr wythnos ganlynol daeth yn amser i gystadlu am gwpan pêl-droed ysgolion y cylch ac yn y gêm derfynol i ysgolion Grŵp B ar faes Park Avenue bechgyn ysgol y Penrhyn a orfu unwaith eto. Llawen iawn oedd yr aelodau o gael dychwelyd i'r ysgol gyda chwpan hardd arall yn eu meddiant. Da iawn fechgyn! Haeddwch ganmoliaeth am gyflawni'r gamp ddwbl yma.